wavehill

Social and economic research

Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

# Effaith Cynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru

**Papur briffio tystiolaeth**



Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Prif Negeseuon

## Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn llenwi bylchau hanfodol a grëwyd gan yr argyfwng costau byw

Mae chwyddiant cynyddol ynghyd â thoriadau real mewn gwariant refeniw awdurdodau lleol yn golygu bod llawer o wasanaethau cyffredinol, anstatudol ac ataliol ledled Cymru wedi cael eu torri ar adeg pan mae ansicrwydd ariannol yn arwain at waethygu iechyd meddwl a chorfforol. Ar draws sawl rhan o Gymru, mae Cynghorau Cymuned a Thref yn camu i mewn i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i'w trigolion lleol fel canolfannau cynnes, banciau bwyd a gweithgareddau cymunedol.

## Ar ôl cael eu meintioli am y tro cyntaf, gallwn weld bod effaith Cynghorau Cymuned a Thref yn sylweddol

Mae'r ymchwil hon yn cynrychioli'r ymgais gyntaf i feintioli effaith gymdeithasol y gwaith a wneir gan Gynghorau Cymuned a Thref i fynd i'r afael â materion costau byw. Mae ein dadansoddiad yn amcangyfrif bod bron i £26 miliwn o werth cymdeithasol wedi'i gynhyrchu yn 2025, sy'n cyfateb i £4.86 am bob £1 a wariwyd. Roedd ein dadansoddiad yn cwmpasu traean o'r 731 o gynghorau ledled Cymru, er bod y sampl hon yn debygol o gynnwys llawer o'r cynghorau mwyaf ymatebol i'r argyfwng costau byw, mae'r ffigur hwn yn dal i fod yn debygol o danamcangyfrif yr effaith genedlaethol.

## Mae rhwystrau strwythurol yn cyfyngu ar uchelgais a photensial Cynghorau Tref a Chymuned

Dangosodd canlyniadau ein harolwg bod yna garfan sylweddol o gynghorau gweithredol a oedd yn awyddus i ehangu nifer y gweithgareddau costau byw a darparwyd ganddynt yn ogystal â nifer o gynghorau a oedd eisiau ddechrau darparu gweithgaredd costau byw am y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae diffyg staff a gallu ariannol yn profi i fod yn rhwystrau sylweddol i ehangu gweithgarwch yn y gofod hwn.

## Mae Un Llais Cymru yn chwarae rôl bwysig wrth alluogi'r sector i gael effeithiau cadarnhaol

Mae cynghorau'n gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth y mae Un Llais Cymru wedi'i gynnig iddynt i gefnogi darpariaeth eu gweithgareddau costau byw ac maent yn awyddus i weld y gefnogaeth hon yn ehangu gyda mwy o hyfforddiant, cyfeirio at gyllid ac arddangos arfer da.

## Mae angen cefnogaeth y tu hwnt i Un Llais Cymru i gryfhau'r sector

Mae llawer o gynghorau wedi mynegi awydd am gyllid ychwanegol y tu allan i'w praesept i sicrhau nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar eu trigolion i ehangu eu darpariaeth. Ar ben hynny, mae cynghorau wedi mynegi awydd am drefniadau gwaith mwy ffurfiol gydag awdurdodau lleol i osgoi dyblygu a chydlynu cefnogaeth i bobl leol.

## Yr argyfwng costau byw


Yr argyfwng costau byw sydd yn parhau i fod y prif bryder i'r cyhoedd ym Mhrydain yn 2026[1], gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod lefelau prisiau cyffredinol wedi codi dros 27% rhwng Mawrth 2021 a diwedd 2025[2]. Yng Nghymru, mae'r cynnydd hwn mewn chwyddiant wedi'i gyfuno â thoriadau ym mhŵer gwario awdurdodau lleol. Ar sail fesul person, mae'r gwariant refeniw gwirioneddol yn dal i fod yn is nag yr oeddent yn 2010.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu toriadau i wasanaethau cyffredinol, anstatudol ac ataliol ar adeg pan fo ansicrwydd ariannol yn creu mwy o heriau i unigolion a chymunedau ledled Cymru. Trwy wasgu gwasanaethau cyhoeddus ac incwm unigolion, mae'r argyfwng costau byw wedi gwaethygu iechyd meddwl a chorfforol, wedi cynyddu ynysu cymdeithasol, a chynyddu dibyniaeth cartrefi ar fenthyca, gan danio'r argyfwng i barhau.

Mewn llawer o ardaloedd ledled Cymru, mae cynghorau cymuned a thref wedi camu i'r bwlch a grëwyd trwy ddarparu canolfannau cynnes, gwasanaethau gofal plant, cynlluniau bwyd am ddim a llawer o weithgareddau eraill sy'n mynd i'r afael ag anghenion lleol. Gan ymateb i anghenion cynghorau am arweiniad a chymorth ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw yn eu hardal leol, sefydlodd Un Llais Cymru dîm pwrpasol i ddarparu adnoddau a hwyluso dysgu i wella gallu cyffredinol y sector i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn well ledled Cymru.

## Trosolwg o'r ymchwil

Mae'r rhai sy'n gweithio yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref, a'r bobl sy'n elwa o'u cefnogaeth, eisoes yn cydnabod gwerth ac effaith eu gwaith, ond hyd yn hyn nid yw'r effaith hon wedi'i ddeall mewn termau meintiol. Fe wnaethom ddosbarthu arolwg i bob un o'r 731 o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru er mwyn ceisio casglu data meintiol ar y gweithgareddau costau byw y maent yn eu cyflawni yn eu hardaloedd. Fe wnaethom fwydo'r 237 o ymatebion mewn model enillion ar fuddsoddiad cymdeithasol i ddadansoddi'r mathau o weithgareddau sy'n cael eu darparu gan Gynghorau Cymuned a Thref.




[1] YouGov, Prydeinwyr a chostau byw, Ionawr 2026
[2] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mynegai CPIH, Chwefror 2026

## Beth mae Cynghorau Cymuned a Thref yn ei wneud nawr?

Mae canlyniadau ein hymchwil yn dangos bod Cynghorau Cymuned a Thref wedi creu gwerth cymdeithasol trwy ystod eang o weithgareddau i fynd i'r afael â phwysau costau byw. Mae rhai gweithgareddau yn darparu budd ariannol uniongyrchol i drigolion lleol fel cymorth gyda thaliadau, mentrau fel banciau bwyd neu ddarparu gofal plant a gweithgareddau eraill am ddim. Mae gwaith gan gynghorau cymuned a thref hefyd yn cynhyrchu gwerth anuniongyrchol, trwy gefnogi iechyd meddwl a chorfforol pobl a brwydro yn erbyn allgáu digidol neu ynysu cymdeithasol. Drwy ddadansoddi'r data meintiol a ddarperir gan y cynghorau hyn, mae ein modelu wedi dangos bod Cynghorau Cymuned a Thref wedi cynhyrchu gwerth cymdeithasol sylweddol ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er bod y data yn debygol o adlewyrchu carfan o'r cynghorau mwyaf ymatebol i'r argyfwng costau byw yng Nghymru, mae sampl o 237 o ymatebion yn golygu ei bod yn debygol bod y ffigur hwn yn danamcangyfrif o gyfanswm y gwerth a gynhyrchir gan y sector yn ei gyfanrwydd.

Mae Cynghorau Cymuned a Thref wedi cynhyrchu

**£25.97m**

mewn gwerth cymdeithasol yn 2025.

**£4.86** enillion cymdeithasol **am bob £1** a wariwyd


Dros **169,200** o oriau gwirfoddoli

Dros **187,000** o brydau bwyd wedi darparu

Cynghorau Cymuned a Thref yw rhai o'r endidau gorau i adnabod heriau leol sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a darparu atebion sy'n gweddu orau i anghenion eu trigolion. Mae ein prif ymchwil yn adrodd sawl achos o gymorth effeithiol a ddarperir gan Gynghorau Cymuned a Thref.

Mae Cyngor Tref Caernarfon a grŵp o 25 o wirfoddolwyr yn gweithredu 'O Law i Law', siop yn y dref sy'n gwerthu nwyddau hanfodol, eitemau rhodd, dillad a gwisgoedd ysgol. Mae’r siop yn canolbwyntio ar lleihau pwysau cost nwyddau hanfodol.

Mae gan Gyngor Cymuned Caia dros ugain mlynedd o hanes ym maes costau byw, gan ddarparu gwasanaeth cynghori i gefnogi lles, budd-daliadau, dyled, tai a hawliau defnyddwyr. Maent yn cefnogi 300+ o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd, yn aml gyda mwy nag un her cymhleth yr un.



Mae menter 'Bwydo'r gymuned' Cyngor Tref Hwlffordd yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer gwasanaethau yn y dref sy'n darparu bwyd poeth am ddim, prydau cartref, gofal llygaid, rhoddion teganau a nwyddau eraill, torri gwallt am ddim, ac apwyntiadau gyda timau o Gyngor Sir Benfro .

Mae Cyngor Tref Blaenafon yn ariannu Gwasanaeth Chwarae Torfaen i gynnig gwersyll chwarae haf rhad ac am ddim ar gyfer 120 o blant y dydd ar gyfartaledd. Dosbarthodd y cynllun hefyd 4,500 o brydau bwyd yn ystod gwyliau'r haf 2025, gan lleihau pwysau ariannol gofal plant i deuluoedd lleol.

## Beth allai'r sector ei wneud yn y dyfodol?

Nid yw'r effaith gymdeithasol y mae ein hymchwil wedi'i ddatgelu hyd yma yn adlewyrchu'n llawn yr hyn y gallai'r sector ei gyflawni gyda mwy o gefnogaeth. Dangosodd canlyniadau ein arolwg hefyd fod Cynghorau Cymuned a thref yn wynebu rhwystrau sylweddol a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i ehangu eu darpariaeth costau byw neu i ddechrau darparu gweithgareddau costau byw am y tro cyntaf.

Canfu'r arolwg fod 61% o'r ymatebwyr yn darparu o leiaf un gweithgaredd costau byw. Ymhlith y cynghorau hyn, dywedodd 37% yr hoffent ddarparu gwasanaethau costau byw ychwanegol. Ymhlith y 39% sy'n weddill a nododd nad oeddent yn darparu unrhyw weithgareddau costau byw, nododd 46% yr hoffent ddechrau darparu un.

Mae canlyniadau ein harolwg yn dangos bod cydberthynas positif rhwng yr incwm praesept y mae cyngor yn ei dderbyn a nifer y gweithgareddau costau byw y maent yn eu darparu yn eu hardal leol. Nid yw'n syndod bod cyllideb fwy yn rhoi'r gallu ariannol i gynghorau ddarparu mwy o wasanaethau, ond mae bron i draean o Gynghorau Cymuned a Thref yn derbyn incwm praesept o lai na £10,000 y flwyddyn sydd prin yn ddigon i dalu am un clerc rhan-amser.

---

> "Ni fyddwn yn gallu darparu unrhyw weithgareddau pellach yn y dyfodol heb gynyddu'r praesept yn sylweddol ... Nid yw hynny'n teimlo'n iawn i ni ei wneud pan mae argyfwng costau byw" – Cyngor Cymuned [wedi cyfieithu o’r Saesneg]

---

Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn wynebu tensiwn clir wrth osod eu cyllideb: mae mwy o gyllid yn aml yn caniatáu iddynt gyflawni gweithgareddau sy'n gwella bywydau pobl yn eu cymunedau lleol tra hefyd yn rhedeg y perygl o leihau’u hincwm. Mae hyn yn cael ei ategu yn ein data arolwg, sy'n dangos mai diffyg capasiti staff a diffyg cyllid oedd y ddau rwystr mwyaf a wynebwyd gan gynghorau Cymuned a Thref tra’n darparu gweithgareddau costau byw.

Mae Un Llais Cymru yn darparu ystod o wasanaethau cyngor, cymorth ac eiriolaeth ar ran Cynghorau Cymuned a Thref i'w galluogi i darparu ar gyfer eu trigolion yn well. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant, gweminarau ac adnoddau ar-lein i ddarparu canllawiau clir i gynghorau ar yr arferion gorau ar gyfer gweithredu ystod eang o weithgareddau, fforwm costau byw ar-lein i gefnogi dysgu rhwng gwahanol gynghorau, a chylchlythyr i dynnu sylw at gyfleoedd cyllido a grantiau.

Er mwyn eu cefnogi i'r dyfodol, mae Cynghorau eisiau i Un Llais Cymru ehangu eu gwaith costau byw drwy ddarparu mwy o hyfforddiant, enghreifftiau o arfer da a chymorth i ysgrifennu ceisiadau am grantiau. Y tu hwnt i Un Llais Cymru, yr angen mwyaf cyffredin a fynegwyd gan gynghorau oedd cyllid o ffynonellau y tu allan i'w praesept a mwy o gydweithrediad â'r awdurdodau lleol i gydlynu cefnogaeth yn fwy effeithiol.

## Casgliadau ac argymhellion

Mae'r ymchwil hon yn cynrychioli'r ymgais gyntaf i feintioli'n ariannol effaith y gwaith a wneir gan Gynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru i fynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng costau byw yn eu hardaloedd. Mae ein modelu effaith gymdeithasol yn amcangyfrif bod bron i £26 miliwn wedi cael ei gynhyrchu mewn gwerth cymdeithasol gan y cynghorau a ymatebodd i'n harolwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, sy'n cyfateb ag enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad o £4.86 am bob £1 a wariwyd gan gynghorau. Mae'n debygol bod y ffigur hwn yn danamcangyfrif o gyfanswm y gwerth a gynhyrchir gan y sector yn ei gyfanrwydd.

Mae brwdfrydedd cryf ymhlith llawer o Gynghorau Cymuned a Thref i naill ai ehangu eu darpariaeth costau byw presennol neu i ddarparu eu gweithgareddau costau byw am y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae yna sawl rhwystr sydd ar hyn o bryd yn cyfyngu cynghorau rhag darparu gwasanaethau lleol i'w llawn botensial, yn bennaf ymhlith y rhain mae staffio cyfyngedig a chapasiti ariannol.

Mae cynghorau yn ystyried Un Llais Cymru fel ffynhonnell gyngor dibynadwy ar bob agwedd sy'n ymwneud â rheoli cynghorau cymuned a thref, yn enwedig y gwaith hyfforddi a rhannu gwybodaeth i alluogi cynghorau i ddelio â'r argyfwng costau byw yn lleol yn well.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hymchwil, rydym wedi cynnig yr argymhellion canlynol ar gyfer llunwyr polisi:

1. **Parhau i gefnogi Tîm Costau Byw Un Llais Cymru**: Rhoddodd ymatebwyr i'n harolwg adborth cadarnhaol am bob agwedd o'r gefnogaeth a gynigir gan Un Llais Cymru, gan ganmol yn enwedig y gweminarau, y canllawiau a'r cyfeiriau at grantiau.
2. **Ehangu ffynonellau cyllid sydd ar gael**: Ar gyfer cynghorau llai yn arbennig, gall fod tensiwn cryf wrth gynyddu'r praesept er mwyn cefnogi darpariaeth gweithgareddau costau byw. Mae angen ystod fwy amrywiol o ffynonellau cyllido ar gynghorau cymuned a thref i ehangu eu darpariaeth cymorth heb effeithio ar incwm gwario trigolion lleol. Gellid gwneud hyn naill ai trwy ehangu meini prawf cymhwysedd grantiau penodol neu drwy gynnig ffynonellau cyllid uniongyrchol newydd i Gynghorau Cymuned a Thref.
3. **Gwella monitro a chasglu data ar allbynnau**: Wrth i Gynghorau Cymuned a Thref barhau i ddarparu cymorth rheng flaen i'w trigolion, dylid cymryd dull mwy strwythuredig o fonitro mewnbynnau ac allbynnau y cymorth a ddarperir i gefnogi cynllunio yn y dyfodol a chryfhau'r achos dros gyllid allanol.
4. **Gwella cydweithio ag awdurdodau lleol**: mae'r berthynas waith rhwng Cynghorau Cymuned a Thref ac awdurdodau lleol ledled Cymru yn amrywio o ran ei amlder a'i strwythur, nododd llawer o ymatebwyr i'n harolwg y gallai ymgysylltu ag awdurdodau lleol fod yn heriol ac yn cymryd llawer o amser. Gall perthynas waith fwy ffurfiol rhwng yr haenau hyn o lywodraeth leol wella effeithlonrwydd darparu cymorth lleol. Model posibl i'w ddilyn yw'r tenantiaid ar gyfer gweithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref a sefydlwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

# Ynglŷn â'r awduron

Mae Wavehill yn ymgynghoriaeth ymchwil gydag arbenigedd mewn gwerthuso polisi a dadansoddi effaith. Comisiynwyd Wavehill gan Un Llais Cymru i gynnal arolwg a dadansoddiad enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad o'r gweithgareddau costau byw a ddarperir gan Gynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru. Mae'r canfyddiadau yn y ddogfen hon yn seiliedig ar yr ymchwil a gomisiynwyd gan Un Llais Cymru.


Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: Ystafell 1203, Bloc Bryste, Fairfax Street, Bryste, BS1 3BN
- Swyddfa Gogledd Lloegr: The Corner, 26 Mosley Street, Newcastle, NE1 1DF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, Llundain, N4 3EY

Manylion cyswllt

Ffôn: 0330 1228658

E-bost: wavehill@wavehill.com

Mwy o wybodaeth

www.wavehill.com



© Wavehill: ymchwil gymdeithasol ac economaidd.

Mae'r briff polisi hwn yn ddarostyngedig i hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil gymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.



Awduron yr adroddiad

Rhys Maher, Ioan Teifi

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at Rhys Maher yn rhys.maher@wavehill.com



Dyddiad y ddogfen: Mawrth 2026

## Cysylltu â ni

0330 122 8658

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

## Dilynwch ni ar ein cymdeithasol

@wavehilltweets

Wavehill